# Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd
# Cilymaenllwyd Community Council

# Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyflwyniad**

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r ffordd bydd Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn ei dilyn mewn perthynas â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ar gyfer gweithgareddau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Bwriad y Polisi yw cynorthwyo’r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol a moesol, gan sicrhau nad yw iechyd a diogelwch aelodau’r Cyngor, ei weithiwr h.y. y Clerc a phersonau sy’n dod i gysylltiad â’r Cyngor neu ei weithgareddau yn cael eu heffeithio’n andwyol.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob Cynghorydd a Chlerc y Cyngor i fod yn ymwybodol o'r datganiadau polisi canlynol ar Iechyd a Diogelwch ac o'r trefniadau a wnaed i weithredu'r polisïau hyn.

**Datganiad Polisi**

1. Mae Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd, yn unol â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle (1974) a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1999), yn derbyn ei ddyletswydd i ddarparu a chynnal amodau gwaith diogel ac iach ar gyfer ei weithwyr, h.y. y Clerc.
2. Bydd y Cyngor Cymuned yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith ar Iechyd, Diogelwch a Lles ac unrhyw reoliadau perthnasol, Codau Ymarfer Cymeradwy a Chanllawiau. Bydd yn darparu'r adnoddau i sicrhau diogelwch ei holl Gynghorwyr a’r Clerc.
3. Bydd y Cyngor Cymuned yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau:

   3.1 Bod gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant, goruchwyliaeth, offer a chyfleusterau sy'n angenrheidiol i sicrhau amgylchedd gwaith diogel i'r Clerc a'r Cynghorwyr yn cael eu darparu, gan gynnwys unrhyw PPE priodol.

   3.2 Bod ei waith, yn ei holl ffurfiau, yn cael ei wneud mewn ffyrdd fel nad yw aelodau'r cyhoedd yn cael eu rhoi mewn perygl; darparu rheolaeth ddigonol ar y risgiau iechyd a diogelwch sy’n deillio o weithgareddau’r Cyngor.

   3.3 Bod trefniadau yn eu lle ar gyfer defnyddio, trin, storio a chael gwared ar yr holl offer a allai beryglu iechyd a lles yn ddiogel. Ni ddylid defnyddio unrhyw offer heb gael yr hyfforddiant priodol.

   3.4 Bod offer yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd, yn unol ag amserlen cynnal a chadw. Os bernir bod unrhyw offer wedi'i ddifrodi neu'n anaddas i'w ddefnyddio am unrhyw reswm, rhaid rhoi gwybod i'r Cadeirydd

neu'r Clerc am hyn ac ni chaiff ei weithredu, gydag arwyddion clir.

3.5 Bod y Polisi hwn yn cael ei ddwyn i sylw'r Clerc a'r Cynghorwyr a'u bod yn gyfarwydd â'i gynnwys.

4. Mae gan bob Cynghorydd a'r Clerc ddyletswydd i gymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac unrhyw bersonau y gall eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod effeithio arnynt.

5. Y Clerc sy'n gweithredu ar ran y Cyngor fydd yn delio â materion Iechyd a Diogelwch o ddydd i ddydd.

6. Asesiadau Risg: bydd y Cyngor Cymuned yn cynnal asesiad risg o'i weithgareddau yn ôl yr angen ac yn adolygu'r rhain yn flynyddol. Bydd asesiadau risg yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a byddant yn cynnwys: nodi peryglon; asesu'r risg; rhoi mesurau rheoli ar waith; cofnodi'r canfyddiadau ac adolygu'r rheolaethau.

7. Offer Diogel: bydd y Clerc yn gyfrifol am: (i) nodi'r holl offer sydd angen eu cynnal a'u cadw a (ii) sicrhau bod gweithdrefnau cynnal a chadw effeithiol yn cael eu llunio. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl waith cynnal a chadw a nodwyd yn cael ei wneud. Dylid hysbysu'r Clerc ar unwaith am unrhyw broblemau a ganfyddir gydag offer. Bydd Cynghorwyr yn gwirio bod offer newydd yn bodloni safonau iechyd a diogelwch cyn iddo gael ei brynu.

8. Damweiniau: er y gwneir pob ymdrech i sicrhau amgylchedd diogel, derbynnir y gall damweiniau ddigwydd. Os bydd damwain rhaid rhoi gwybod i'r Clerc ar unwaith. Rhaid ei gofnodi hefyd yn y llyfr damweiniau. Yn dilyn unrhyw ddamwain ymchwilir i'r sefyllfa i benderfynu a oes angen gwneud newidiadau i offer, hyfforddiant neu systemau i weithio fel y gellir atal sefyllfa debyg yn y dyfodol.

9. Trin a Defnyddio Sylweddau'n Ddiogel: nid yw Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd ar hyn o bryd yn defnyddio nac yn storio unrhyw sylweddau sydd angen asesiad COSHH. Fodd bynnag, os bydd yn defnyddio neu’n storio unrhyw sylweddau sy’n beryglus i iechyd yn y dyfodol, rhaid eu storio a’u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr. Bydd label COSHH (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002) arnynt, a rhaid dilyn y canllawiau ar y label hwn yn llawn.

10. Codi a Chario: rhaid i Gynghorwyr, y Clerc neu gyfranogwyr eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd y Cyngor sy'n ymwneud ag unrhyw godi neu gario fynychu hyfforddiant ar godi a chario.

11. Adolygu’r Polisi: bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu ar ôl newidiadau mewn deddfwriaeth, newidiadau yn strwythur y Cyngor, neu wybodaeth ychwanegol a gaiff ei gyflwyno yn flynyddol.

Medi 2023